# Disgwyliad oes yn dangos rhaniad gogledd/de sy’n tyfu

Gall dynion yn Llundain fyw hyd at 14 blynedd yn hirach na dynion yn Glasgow, yn ôl ffigurau *ONS*, gan roi dynion Glasgow ar yr un raddfa â dynion Albania a Phalestina.

Mae’r disgwyliad oes uchaf yn y DU ar gyfer dynion a menywod i’w gael yn Kensington a Chelsea. Gall dynion yn Kensington a Chelsea ddisgwyl byw 14 blynedd yn hirach na dynion yn Glasgow, yn ôl ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (*ONS: Office for National Statistics*), sy’n dangos bwlch sy’n lledaenu rhwng disgwyliad oes yn ne a gogledd y DU. “Mae’r disgwyliad oes gorau yn Llundain yn well na’r disgwyliad oes ar gyfartaledd yn Japan, sydd â’r disgwyliad oes uchaf yn y byd, ac mae’r disgwyliad oes gwaethaf yn debyg i un Gwatemala.”

Yn San Steffan, y disgwyliad oes ar gyfer menywod yn y pum ward â’r lefel uchaf oedd 93.76 blynedd ar gyfartaledd; y wardiau hyn oedd Harrow Road, Knightsbridge a Bayswater, Little Venice, Warwick a Vincent Square, yn ôl y ffigurau lefel ward diweddaraf.




Harrow Road oedd â’r disgwyliad oes uchaf, sef 97.1 blynedd.

Yn Kensington a Chelsea, 92.5 ydoedd ar gyfer wardiau Hans Town, Colville, Courtfield, Cremorne ac Earls Court.

Yn ardal Calton yn Glasgow, 53.9 blynedd yw disgwyliad oes dynion ar gyfartaledd. Yn Iraq, ar ôl 10 mlynedd o sancsiynau, rhyfel a gwrthdaro parhaus, bomiau hunanladdiad a gwrthryfel, mae gan ddynion siawns dda o fyw hyd at ei 60au; disgwyliad oes dynion yno yw 67.49. Y disgwyliad oes yn Iran yw 69.96, 71.37 yng Ngogledd Korea, a 70.5 yn Llain Gaza.

Ar y cyfan, Glasgow yw’r awdurdod lleol sydd â’r cofnod gwaethaf o ddisgwyliad oes dynion a menywod, er iddo weld cynnydd o 71.1 i 71.6 ar gyfer dynion rhwng 2007–09 a 2008–10. £23,356 oedd y cyflog ar gyfartaledd ar gyfer dynion yn Glasgow yn 2010, o’i gymharu â £87,516 yn Kensington a Chelsea.




Dywedodd ysgrifennydd cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur (*TUC: Trades Union Congress*), Brendan Barber, fod y ffigurau’n “rhybudd difrifol” i lywodraeth sy’n mynnu gorfodi pobl i ymddeol yn hwyrach.

“Gall pobl sy’n byw mewn ardaloedd fel Glasgow a Blackpool ddisgwyl i’w hymddeoliad fod ddegawd yn fyrrach na’r rheini sy’n dod o rannau mwy cyfoethog y DU.

“Er ei fod yn syniad synhwyrol i’r bobl gyfoethog elitaidd yn Kensington a Chelsea, mae angen i weinidogion sylweddoli bod cynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth fel hyn yn codi ofn ar y miliynau o bobl sy’n byw ymhellach i’r gogledd.”

Ffynhonnell: http://www.theguardian.com/money/2011/oct/19/life-expectancy-growing-north-south-divide